YSGOL BRYNREFAIL

Y WLADFA AMDANI

Yn ystod tymor yr Hydref 2015 bydd Nia Haf, sy'n hanu o bentref Llanrug ac Adam Bragan, yntau o bentref Bethel yn teithio i'r Ariannin i gynrychioli Urdd Gobaith Cymru.
Bydd y ddau yn treulio amser yn gwirfoddoli yn y Wladfa, ar ran yr Urdd, trwy weithio yn ysgol gynradd Gymreig a hefyd gweithio gydag oedolion sydd yn rhugl eu Cymraeg.
Ond nid ar chwarae bach y mae cyllido'r fath fenter. Mae'r ddau yn wynebu costau o £2,400 yr un. Yr ydym ym Mrynrefail yn ymgeisio eu cefnogi trwy drefnu nifer o weithgareddau ac os fedrwch chi gyfrannu, yn unigolion, yn gymdeithasau ,yn gwmnïau fe fyddwn yn hynod o ddiolchgar.